

# Sgiliau i Ewrop



## Y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd

### Mae'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd yn eich helpu i ddeall lefelau cymwysterau dramor.

Ei nod yw cysylltu systemau cymwysterau cenedlaethol gwahanol wledydd mewn fframwaith cyfeirio cyffredin Ewropeaidd, gan wneud cymwysterau cenedlaethol yn fwy darllenadwy ledled Ewrop.

### Beth gall wneud i ddysgwyr, gweithwyr a cheiswyr gwaith

Gallwch gymharu eich cymwysterau â rhai ar yr un lefel mewn gwlad arall. Ewch i [wefan y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd](#) a dechreuwch drwy ddewis eich fframwaith cenedlaethol eich hun.

### Beth gall wneud i gyflogwyr, a staff mynediad colegau a phrifysgolion

Dysgwch sut mae cymwysterau ymgeisydd yn cymharu â chymwysterau'r Deyrnas Unedig gan ddefnyddio [gwefan y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd](#)

### Beth gall wneud i gynghorwyr gyrfaoedd

- Mae'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd yn eich helpu i esbonio cymwysterau'r Deyrnas Unedig i gleientiaid o wledydd eraill.
- Mae'n rhoi dealltwriaeth i gleientiaid o'r Deyrnas Unedig o'r mathau o swyddi neu gyrсияu y gallent fod yn gymwys i ymgeisio amdanynt dramor.

>>>

[sgiliauiewrop.cymru](http://sgiliauiewrop.cymru)

# Sgiliau i Ewrop

---

## Y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd (parhâd)

---

### Offer eraill a allai fod o ddiddordeb ichi:

Mae **Europass** yn bortffolio o ddogfennau sy'n disgrifio gwybodaeth a sgiliau unigolyn mewn modd sy'n ddealladwy ledled Ewrop. [Europass]

Mae'r **Sgiliau, Cymwyseddau a Galwedigaethau Ewropeaidd** yn rhestru'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael swyddi penodol yn Ewrop. [ESCO]

Mae'r **System Dysgu Anffurfiol a Dysgu Nad yw'n Ffurfiol** yn helpu i nodi ac asesu pob math o ddysgu.

Mae'r **System Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** yn helpu i roi hyder y gellir ymddiried mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn Ewrop. [EQAVET]

Fframwaith yw'r **System Trosglwyddo Credyd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** sy'n cefnogi a chydabod elfennau o ddysgu sy'n digwydd yn ystod ymweliadau astudio a lleoliadau gwaith dramor. [ECVET]

[sgiliauiewrop.cymru](http://sgiliauiewrop.cymru)

# Sgiliau i Ewrop



## Europass

**Portffolio o ddogfennau yw Europass sy'n esbonio gwybodaeth a sgiliau unigolyn mewn ffordd sy'n ddealladwy ledled Ewrop.**

**Beth gall wneud i ddysgwyr, gweithwyr a cheiswyr gwaith**

Bydd dogfen Europass yn eich helpu os ydych yn dymuno newid swydd yn y Deyrnas Unedig neu dramor neu os ydych yn dymuno astudio mewn gwlad wahanol.

Mae'n eich helpu i gyfathrebu eich sgiliau a'ch cymwysterau yn effeithiol.

Mae dwy ddogfen y gallwch eu cwblhau:

- Mae CV Europass yn adnabyddus ledled Ewrop. Mae'n eich helpu i gyflwyno eich sgiliau a'ch cymwysterau yn effeithiol a chlir. Mae modd ei gwblhau [ar-lein](#) gan ddefnyddio templed parod.
- Mae Pasbort Iaith Europass yn hunanasesiad o'ch sgiliau a'ch cymwysterau iaith. Mae modd ei ddefnyddio [ar-lein](#) gan ddefnyddio templed.

Gallwch gadw eich holl ddogfennau, tystysgrifau a CV gyda'i gilydd ar-lein gan ddefnyddio'r [Pasbort Sgiliau Ewropeaidd](#) gan gynnig tystiolaeth bellach o'ch sgiliau, cymwysterau a phrofiad.

**Beth gall wneud i diwtoriaid coleg y mae eu myfyrwyr yn mynd ar ymweliad astudio dramor, a beth gall wneud i gyflogwyr y mae eu cyflogwyr yn mynd ar gwrs hyfforddiant dramor**

Gall dogfen Europass Mobility gael ei ddefnyddio i gofnodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymwysterau y mae eich dysgwyr/cyflogeion yn eu dysgu yn ystod ymweliad astudio, cyfnod o hyfforddiant neu leoliad gwaith yn Ewrop. Mae'n rhoi i'r dysgwr neu'r cyflogai dystiolaeth ysgrifenedig o'r hyn maent wedi cyflawni dramor.

Caiff dogfen Europass Mobility ei chreu, ei chwblhau a'u dilysu gan y sefydliad sy'n anfon, y sefydliad sy'n derbyn, a chan y dysgwr neu'r cyflogai. Mae modd i ddysgwyr neu gyflogeion ei defnyddio yn adysgrif ochr yn ochr â [Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Chytundeb Dysgu](#) ECVET.

>>>

[sgiliauiewrop.cymru](http://sgiliauiewrop.cymru)

# Sgiliau i Ewrop

## Europass (parhâd)

### Beth gall wneud i gyflogwr sydd wedi derbyn CV gyda chymwysterau Ewropeaidd gan ymgeisydd swydd

Gofynnwch i'r ymgeisydd swydd am [Atodiad Tystysgrif Europass](#) – sydd ar gael gan y corff arholi a ddyfarnodd dystysgrif yr ymgeisydd. Mae'r Atodiad Tystysgrif yn disgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau sydd gan ddeiliaid tystysgrif addysg a hyfforddiant galwedigaethol.

Os oes gan yr ymgeisydd gymhwyster o brifysgol Ewropeaidd, gofynnwch iddi/iddo am [Atodiad Diploma Europass](#) – sydd ar gael gan y brifysgol. Mae'r Atodiad Diploma yn disgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau sydd gan ddeiliaid graddau addysg uwch.

Mae'r Atodiad yn cyfieithu teitl cymwysterau Ewropeaidd, yn ogystal â'r sgiliau a'r cymwyseddau, i Saesneg clir ac mae hefyd yn rhestru'r amrywiaeth o alwedigaethau sydd ar gael i ddeiliaid y cymhwyster.

Noder: nid yw pob corff arholi / prifysgol yn rhoi Atodiadau Tystysgrif/Diploma Europass. Os felly, bydd angen ichi ddefnyddio'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd, sy'n dangos lefelau cymwysterau Ewropeaidd.

### Beth gall wneud i gynghorwyr gyrfaedd

Gall Pasbort Sgiliau Europass helpu cleient i weithio neu astudio dramor. Gweler yr adran uchod dan y pennawd: "Beth gall wneud i ddysgwyr, gweithwyr a cheiswyr gwaith"

I ddysgu mwy am Europass, cysylltwch â'ch Canolfan Europass Genedlaethol, sef [UK NARIC](#) yn y Deyrnas Unedig.

### Offer eraill a allai fod o ddiddordeb ichi:

Mae'r **Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd** yn eich helpu i ddeall lefelau cymwysterau tramor. [EQF]

Mae'r **Sgiliau, Cymwyseddau a Galwedigaethau Ewropeaidd** yn rhestru'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael swyddi penodol yn Ewrop. [ESCO]

Mae'r **System Dysgu Anffurfiol a Dysgu Nad yw'n Ffurfiol** yn helpu i nodi ac asesu pob math o ddysgu.

Mae'r **System Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** yn helpu i roi hyder y gellir ymddiried mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn Ewrop. [EQAVET]

Fframwaith yw'r **System Trosglwyddo Credyd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** sy'n cefnogi a chydabod elfennau o ddysgu sy'n digwydd yn ystod ymweliadau astudio a lleoliadau gwaith dramor. [ECVET]

[sgiliauiewrop.cymru](http://sgiliauiewrop.cymru)

# Sgiliau i Ewrop



## System Trosglwyddo Credyd Ewropeidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol

**Diben craidd y System Trosglwyddo Credyd Ewropeidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (ECVET) yn y Deyrnas Unedig yw rhoi cydnabyddiaeth i gyflawniadau dysgwyr mewn cyfnodau o astudio a/neu hyfforddi dramor.**

Nod ECVET yw defnyddio iaith a strwythur cyffredin i hybu ymddiriedaeth ymysg darparwyr addysg a hyfforddiant galwedigaethol a sefydliadau cymwys ledled Ewrop. Y nod yw annog mwy o ddysgwyr a staff i ymgymryd â chyfnodau o hyfforddiant neu astudio mewn gwlad Ewropeidd arall.

Erasmus+ yw rhaglen yr Undeb Ewropeidd ar gyfer addysg, hyfforddiant a chwaraeon ac mae'n cynnig cyfleoedd astudio a hyfforddiant cyffrous i ddysgwyr a staff ledled Ewrop. Mae Erasmus+ yn cefnogi'r defnydd o ECVET i gydnabod cyflawniadau'r rhai sy'n cymryd rhan ym mhrosiectau Erasmus+.

Mae tîm o arbenigwyr ECVET yn gweithio yn y Deyrnas Unedig a ledled yr UE. Mae [gwefan Arbenigwyr ECVET](#) yn rhoi cymorth ac arweiniad i sefydliadau sy'n dymuno deall a gweithredu ECVET ym mhrosiectau Erasmus+. Os oes gennych ymholiadau nad ydynt yn cael eu hateb ar y wefan, cysylltwch â Phwynt Cyswllt Cenedlaethol ECVET ac Arbenigwyr ECVET Cymru, sydd wedi'u lleoli yng NgholegauCymru.

### Beth gall wneud i ddysgwyr, gweithwyr a cheiswyr gwaith

Mae ECVET yn galluogi i'r canlyniadau dysgu a gyflawnir yn ystod cyfnod o hyfforddiant neu astudio dramor gael eu cydnabod. Mae hyn yn ychwanegu gwerth at eich profiadau dramor.

Cyn ichi adael i fynd ar ymweliad astudio neu leoliad gwaith yn Ewrop, byddwch yn llofnodi cytundeb dysgu fel eich bod yn gwybod yn glir beth yw diben eich hyfforddiant. Wedi ichi ddychwelyd i Gymru, gallech ddewis cyflwyno'r sgiliau a ddysgoch a'r profiadau a gawsoch i gyflogwyr posibl gan ddefnyddio [Europass](#).

### Beth gall wneud i diwtoriaid coleg y mae eu dysgwyr yn mynd ar ymweliad astudio dramor

Fel rhan o waith trefnu ymweliad astudio neu leoliad gwaith i'ch dysgwyr gan ddefnyddio cyllid Erasmus+, bydd angen ichi lofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'ch sefydliad partner yn Ewrop a chytuno ar y canlyniadau dysgu a fwriedir. Bydd hyn yn eich helpu i sicrhau bod modd i'r sy'n cael ei ddysgu dramor gael ei gydnabod yn ffurfiol fel rhan o gymhwyster galwedigaethol eich dysgwyr yn y Deyrnas Unedig.

>>>

[sgiliauiewrop.cymru](http://sgiliauiewrop.cymru)

# Sgiliau i Ewrop

## System Trosglwyddo Credyd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (parhâd)

### Beth gall wneud i diwtoriaid coleg sy'n dymuno gwella eu hymarfer eu hunain

Mae Erasmus+ yn cynnig cyfle i diwtoriaid coleg gael dealltwriaeth o wahanol dechnegau addysgu ac asesu yng ngwledydd eraill Ewrop. Gan ddefnyddio egwyddorion ECVET, gall canlyniadau dysgu gael eu nodi a'u cyflawni yn ystod cyfnodau o astudio dramor.

### Beth gall wneud i gyflogwyr

Bydd prentisiaid sy'n ymgymryd â chyfnodau o hyfforddiant dramor yn gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy gael profiad o ymarferion gweithio newydd a gwahanol. Gall y sgiliau a'r cymwyseddau newydd hyn gael eu cydnabod drwy ECVET.

### Offer eraill a allai fod o ddiddordeb ichi:

Mae'r **Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd** yn eich helpu i ddeall lefelau cymwysterau tramor. [EQF]

Mae **Europass** yn bortffolio o ddogfennau sy'n disgrifio gwybodaeth a sgiliau unigolyn mewn modd sy'n ddealladwy ledled Ewrop. [Europass]

Mae'r **Sgiliau, Cymwyseddau a Galwedigaethau Ewropeaidd** yn rhestru'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael swyddi penodol yn Ewrop. [ESCO]

Mae'r **System Dysgu Anffurfiol a Dysgu Nad yw'n Ffurfiol** yn helpu i nodi ac asesu pob math o ddysgu.

Mae'r **System Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** yn helpu i roi hyder y gellir ymddiried mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn Ewrop. [EQAVET]

[sgiliauiewrop.cymru](http://sgiliauiewrop.cymru)

# Sgiliau i Ewrop



## Sgiliau, Cymwyseddau a Galwedigaethau Ewropeaidd

**Mae cronfa ddata Sgiliau, Cymwyseddau a Galwedigaethau Ewropeaidd (ESCO) yn dangos y sgiliau a'r cymwysterau sydd eu hangen i gael gwaith mewn crefftiau penodol yn Ewrop.**

Pan fydd wedi'i chwblhau, bydd y gronfa ddata yn cwmpasu yr holl alwedigaethau a'r cymwysterau yn aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.

### Beth gall wneud i ddysgwyr, gweithwyr a cheiswyr gwaith

Os ydych yn chwilio am swydd yn Ewrop, bydd cronfa ddata ESCO yn eich helpu i weld pa gyfleoedd gwaith sy'n cyd-fynd â'r sgiliau sydd gennych. Mae'n caniatáu ichi weld ba sgiliau a chymwysterau mae cyflogwyr yn Ewrop yn chwilio amdanynt ar gyfer swyddi penodol.

### Beth gall wneud i gyflogwyr

Bydd ESCO yn eich helpu i gysylltu sgiliau a chymwysterau penodol â swydd yn eich cwmni a'i gwneud yn haws ichi wneud eich swyddi gwag yn agored i geiswyr gwaith yn Ewrop.

### Beth gall wneud i gynghorwyr gyrfaedd

Pan fydd ESCO yn gwbl weithredol, bydd yn gwneud marchnad lafur Ewrop yn agored.

Drwy ddefnyddio cronfa [ddata ESCO](#), gall gweithwyr proffesiynol mewn gwasanaethau gyrfaedd a chyflogaeth ledled Ewrop gyfnwidi swyddi gwag.

Noder: Mae ESCO yn dal i gael ei ddatblygu. Nid yw'n gwbl weithredol eto.

### Offer eraill a allai fod o ddiddordeb ichi:

Mae'r **Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd** yn eich helpu i ddeall lefelau cymwysterau tramor. [EQF]

Mae **Europass** yn bortffolio o ddogfennau sy'n disgrifio gwybodaeth a sgiliau unigolyn mewn modd sy'n ddealladwy ledled Ewrop. [Europass]

Mae'r **System Dysgu Anffurfiol a Dysgu Nad yw'n Ffurfiol** yn helpu i nodi ac asesu pob math o ddysgu.

Mae'r **System Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** yn helpu i roi hyder y gellir ymddiried mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn Ewrop. [EQAVET]

Fframwaith yw'r **System Trosglwyddo Credyd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** sy'n cefnogi a chydabod elfennau o ddysgu sy'n digwydd yn ystod ymweliadau astudio a lleoliadau gwaith dramor. [ECVET]

[sgiliauiewrop.cymru](http://sgiliauiewrop.cymru)

# Sgiliau i Ewrop



## Y System Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol

**Mae'r System Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (EQAVET) yn rhoi hyder yn sicrwydd ansawdd rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn Ewrop – mae'n creu cydymddiriedaeth.**

Mae EQAVET yn diffinio natur systemau sicrwydd ansawdd da, yn rhoi dangosyddion i bennu pa mor dda mae'r systemau sicrwydd ansawdd hynny'n perfformio, ac astudiaethau achos o arferion da.

Mae proses sicrwydd ansawdd y Deyrnas Unedig yn cydymffurfio ag egwyddorion EQAVET.

### Offer eraill a allai fod o ddiddordeb ichi:

Mae'r **Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd** yn eich helpu i ddeall lefelau cymwysterau tramor. [EQF]

Mae **Europass** yn bortffolio o ddogfennau sy'n disgrifio gwybodaeth a sgiliau unigolyn mewn modd sy'n ddealladwy ledled Ewrop. [Europass]

Mae'r **Sgiliau, Cymwyseddau a Galwedigaethau Ewropeaidd** yn rhestru'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael swyddi penodol yn Ewrop. [ESCO]

Mae'r **System Dysgu Anffurfiol a Dysgu Nad yw'n Ffurfiol** yn helpu i nodi ac asesu pob math o ddysgu.

Fframwaith yw'r **System Trosglwyddo Credyd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** sy'n cefnogi a chydabod elfennau o ddysgu sy'n digwydd yn ystod ymweliadau astudio a lleoliadau gwaith dramor. [ECVET]

[sgiliauiewrop.cymru](http://sgiliauiewrop.cymru)



# Sgiliau i Ewrop



## Dysgu Anffurfiol a Dysgu Nad yw'n Ffurfiol

Mae'r system i achredu dysgu anffurfiol a dysgu nad yw'n ffurfiol – hynny yw, sgiliau a ddatblygwyd y tu allan i'r system addysg ffurfiol – neu i unigolion nad oes ganddynt dystysgrifau ffurfiol, yn y Deyrnas Unedig yn cael ei galw yn Gydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol neu Achredu Profiad a Dysgu Blaenorol.

### Beth gall wneud i gyflogwyr, tiwtoriaid derbyn coleg a chynghorwyr gyrfaoedd

Drwy brofiad ymarferol, mae eisoes gan eich cyflogai/dysgwyr/cleient arfaethedig y wybodaeth, y sgil neu'r cymhwysedd a gâi ei addysgu drwy gymhwyster penodol. Ond nid oes gan yr unigolyn unrhyw dystysgrif.

Neu, yn achos ffoaduriaid er enghraifft, efallai eu bod wedi ennill cymhwyster ond nid oes modd iddynt ei gyflwyno.

Yn hytrach na bod yr unigolyn yn ymgofrestru ar gwrs ffurfiol i ennill cymhwyster swyddogol, efallai y gallech ddefnyddio mathau eraill o dystiolaeth i asesu a chydabod cymhwysedd yn erbyn cyfres benodol o safonau neu ganlyniadau dysgu.

I weld enghraifft o sut mae Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol yn gweithio, gweler gwefan [Fframwaith Cymwysterau a Chredyd yr Alban](#)

I gael cymorth â Chydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol, cysylltwch â'ch coleg neu ddarparwr hyfforddiant lleol.

[sgiliauiewrop.cymru](http://sgiliauiewrop.cymru)

### Offer eraill a allai fod o ddiddordeb ichi:

Mae'r **Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd** yn eich helpu i ddeall lefelau cymwysterau tramor. [EQF]

Mae **Europass** yn bortffolio o ddogfennau sy'n disgrifio gwybodaeth a sgiliau unigolyn mewn modd sy'n ddealladwy ledled Ewrop. [Europass]

Mae'r **Sgiliau, Cymwyseddau a Galwedigaethau Ewropeaidd** yn rhestru'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael swyddi penodol yn Ewrop. [ESCO]

Mae'r **System Sicrwydd Ansawdd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** yn helpu i roi hyder y gellir ymddiried mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn Ewrop. [EQAVET]

Fframwaith yw'r **System Trosglwyddo Credyd Ewropeaidd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol** sy'n cefnogi a chydabod elfennau o ddysgu sy'n digwydd yn ystod ymweliadau astudio a lleoliadau gwaith dramor. [ECVET]